PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 3 GORFFENNAF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Philippa Hill-John, Caerhirfryn, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood |

11 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Owen Jones.

12 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

13 : COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2018 yn gofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

14 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor bod y Cynghorydd Bob Derbyshire wedi'i benodi yn Aelod o'r Pwyllgor Pwyllgor yng Nghyfarfod y Cyngor ar 21 Mai 2018.

15 : CYNLLUN CYFLAWNI'R GYFARWYDDIAETH CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD 2018/19

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Gynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd ar gyfer 2018/19. Rhoddodd yr adroddiad gyfle i gael dealltwriaeth o waith y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd a'i phrif flaenoriaethau ar gyfer eleni.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod fframwaith cynllunio strategol integredig y Cyngor yn nodi'r "edau aur" o ran bodloni pedair prif flaenoriaeth y Cyngor: Gweithio i Gaerdydd; Gweithio i Gymru; Gweithio i'r Dyfodol; a Gweithio i'r Gwasanaethau Cyhoeddus.

Atodwyd y Cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad. Mae gan y Cynllun Cyflawni y fformat wedi'i safoni canlynol:

- Cyflwyniad;
- Proffil y Gyfarwyddiaeth;
- Hunanasesiad y Gyfarwyddiaeth o Berfformiad 2017/18;
- Symud ymlaen: Cyd-destun, Cyfleoedd a Heriau;
- Cyfrannu at Amcanion Llesiant Caerdydd;
- Cyflawni Safonau'r Gymraeg;
- Blaenoriaethau Strategol y Gyfarwyddiaeth.

Mae Hunanasesiad y Gyfarwyddiaeth o Berfformiad yn nodi'r hyn mae'r Gyfarwyddiaeth wedi'i wneud yn dda, yr hyn y gallai'r Gyfarwyddiaeth fod wedi'i

wneud yn well a'r cyfleoedd a'r heriau y mae'r Gyfarwyddiaeth wedi'u hwynebu. Mae'r adran Symud ymlaen: Cyd-destun, Cyfleoedd a Heriau yn nodi materion y mae'n rhaid i'r Gyfarwyddiaeth eu hystyried wrth gynllunio cyflawni yn y dyfodol.

Mae adran Blaenoriaethau Strategol y Gyfarwyddiaeth y nodi sut y caiff pob blaenoriaeth strategol y Gyfarwyddiaeth ei chyflawni trwy ddefnyddio pob un o'r penawdau canlynol:

- Crynodeb o Flaenoriaethau:
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol;
- Rheoli Risgiau;
- Dibynyddion;
- Prif Gamau Gweithredu - Camau Unigol gyda dyddiad dechrau/gorffen; swyddog cyfrifol; cerrig milltir allweddol ar gyfer pob chwarter yn 2018/19; cyswllt ag amcan cydraddoldeb.

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, cyfarwyddwr a Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol i'r cyfarfod. Gwahoddodd y swyddogion i roi cyflwyniad byr ar Gynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth ac Adroddiadau Perfformiad Chwarter 3 a 4 2017/18.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r diffyg gorsaf fysus yn rhwystro effaith i newid i raniad moddol 50/50 ac a yw creu gorsaf fysus yn flaenoriaeth i'r Ddinas o hyd. Cytunodd fod hyn yn rhwystr. Mae'r ddinas wedi bod yn ceisio adeiladu gorsaf newydd am flynyddoedd. Mae cynllun wedi'i ariannu'n effeithiol bellach yn cael ei gynllunio a chaiff ei roi ar waith. Mae'r Ddinas yn symud tuag at ddarparu rhwydwaith hybiau trafnidiaeth dinas gyfan a chaiff gwaith ei gwblhau mewn rhaglen fesul camau. Mae'r cais cynllunio manwl yn cam mawr ymlaen. Caiff yr orsaf fysus ei hadeiladu ymhen dwy flynedd ac mae'r rhwydwaith hyb yn symud ymlaen gyda chyfnewidfeydd posibl wedi'u nodi yng Ngorllewin Caerdydd a Ysbyty Athrofaol Cymru.

- Gofynnodd yr Aelodau sut mae rhaniad moddol yn cael ei fesur a dywedwyd wrthynt ei fod yn cael ei fesur trwy arolygon.

- Nododd yr Aelodau y Dangosydd Perfformiad CL/AIR/001 'Swm y NO2 a fesurir yn flynyddol ledled y Ddinas'. Dywedodd swyddogion fod gwaith manwl ar y gweill i ddatblygu'r Strategaeth Aer Glân. Mae asesiad yn broses ddynamig ac mae lefelau sy'n newid o lygrwyr yn AQMAau ac ardaloedd risg uchel wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru.

- Gan gyfeirio ar gynigion uwchgynllun Canol y Ddinas – Gofynnodd yr Aelodau pam mae gofynodau o hyd o ran ariannu o ystyried yr amserlennu ar gyfer y cynigion. Gofynnwyd i swyddogion egluro'r effaith debygol ar wasanaethau pe na fydd arian ar gael. Dywedodd swyddogion fod gan Uwchgynllun Canol y Ddinas nifer o ailadroddiadau ond mae bellach yn dod yn fwy diffiniedig o ganlyniad i waith ynghylch teithio llesol a Metro De Cymru. Mae trafodaethau manwl ar opsiynau

wedi'u cynnal yn y 12 mis diwethaf.  Amcangyfrif mai tua £5.5 fydd cost y gwaith i'r ardal gyhoeddus yn Heol y Porth.  Gall nifer o bartneriaid allweddol ariannu'r cynllun o bosibl ac roedd yr awdurdod yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd.  Yn y tymor canolig, bydd gofyn i'r awdurdod wneud arbedion sylweddol.  Mae angen ystyried hyn yn ofalus.  Bydd cynigion ond yn cael eu cyflwyno pan fo'r holl opsiynau wedi'u hystyried ond y dewis olaf fydd toriadau i wasanaethau.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y cynigion i gynigion arian wrth gefn ar gyfer Dileu Swyddi wedi'u nodi yn adroddiad Strategaeth Cyllideb y Cabinet. Gofynnodd yr Aelodau sut y byddai awtomeiddio a digideiddio gwasanaethau'n effeithio ar niferoedd staff a faint o swyddi fyddai'n cael eu colli o ganlyniad i newidiadau i wasanaethau.  Dywedodd swyddogion y byddai llwyth gwaith yn cael ei ailddyrannu a/neu y byddai staff yn cael ei ail-leoliad i ddarparu gwasanaethau newydd.  Ni chaiff dileu swyddi ei orfodi.

- Gofynnodd Aelod faint o dai gwag sydd yn y Ddinas ac a yw targed ar gyfer canran y stoc tai wedi'i neilltuo i alluogi'r henoed i aros yn eu cartrefi eu hunain.  Dywedodd swyddogion mai'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir sy'n gyfrifol am dai gwag.

- Credodd yr Aelodau fod diffyg y llwybrau bysus i'r dwyrain/gorllewin yn cael effaith negyddol ar dagfeydd yn y ddinas.  Gofynnodd yr Aelodau a yw swyddogion yn cefnogi'r cynnig i adfer llwybrau bysus i'r dwyrain/gorllewin.  Credodd swyddogion fod hwn yn bwynt pwysig, i'r graddau y mae diffyg gwasanaethau i'r dwyrain/gorllewin yn effeithio'r fwyaf ar y gymunedau mwyaf difreintiedig.  Mae'r Cyngor yn cefnogi symudiadau trawsddinas yn llwyr.  Mae'n ceisio'n weithredol ailsiapio'r rhwydwaith bysus ac mae'n awyddus hybu cysylltiadau i'r dwyrain/gorllewin sy'n golygu nad oes angen teithiau i Ganol y Ddinas mwyach, gan y bydd y rhwydwaith hybiau trafnidiaeth yn cynnig y cysylltiadau hynny.

- O ran gwella perfformiad casglu gwastraff ac ailgylchu, gofynnod yr Aelodau pa heriau sydd wedi codi ers cau CAGC Heol Wedal a sut mae'r rhain wedi'u lleddfu.  Dywedodd yr Aelod Cabinet i Heol Wedal gau pan agorodd y cyfleuster newydd yn Ffordd Lamby.  Mae'r cyfleuster newydd yn cynnig cyfleoedd i ailgylchu ystod ehangach o ddeunyddiau.  Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i adeiladu CAGC yng ngogledd y Ddinas.

- Gofynnwyd i swyddogion roi mwy o fanylion am y sylfaen ar gyfer DPA newydd ar gyfer casgliadau wedi'u methu.  Dywedodd swyddogion fod dau resymeg ar gyfer y DPA casgliadau wedi'u methi newydd: 1. Mae llawer o gasgliadau yn cael eu methu; a 2 i nodi ardaloedd lle mae problemau ailadroddus fel y gall y gwasanaeth fonitro a gwella'r gwasanaeth a sicrhau bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar gwsmeriaid.  Byddai hefyd yn galluogi'r Aelodau i wybod yr hyn sy'n digwydd yn eu wardiau.

- Ceisiodd yr Aelodau egluro cost adeiladu CAGC yng Ngogledd y

Ddinas. Dywedodd swyddogion nad oes ffigwr ar gael. Mae Ystadau Strategol wedi rhoi brîff a rhagwelwyd y byddant yn dychwelyd gydag opsiynau ymhen 6 i 8 wythnos.

- Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad am y Cynllun Nextbike. Dywedodd swyddogion fod y Cynllun Nextbike yn mynd yn ei flaen yn eithriadol dda ac bod gweithredwyr yn falch bod yn cynllun wedi'i dderbyn a'i groesawu yn y Ddinas. Byddai cam nesaf y cynllun, cynyddu nifer y beiciau o 250 i 500, ac mewn mwy o leoliadau, yn cael ei roi ar waith ym mis Awst. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ymestyn y cynllun ymhellach.

- Gofynnodd Aelod pa fesurau ychwanegol sy'n cael eu hystyried er mwyn i'r awdurdod fwrw targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sydd wedi cynyddu o 64% yn y dyfodol agos. Gofynnodd swyddogion hefyd a yw preswylwyr mewn datblygiadau newydd yn derbyn addysg neu ddeunyddiau cyhoeddusrwydd sy'n nodi disgwyliadau'r Cyngor a'r angen i ailgylchu. Dywedodd swyddogion fod yr addysg ailgylchu yn symud tuag at ganolbwyntio'n fwy ar ddinasyddion a bydd yr awdurdod yn anelu at egluro mwy am yr hyn sy'n digwydd i'r gwastraff rydym yn ei gasglu. Roedd gobaith hefyd y byddai'r rhaglen 'Sesiwn Glanhau' hefyd yn helpu i wneud gwahaniaeth trwy weithio gyda dinasyddion mewn ardaloedd lle mae lefelau ailgylchu'n isel.

- Gan gyfeirio at y project ffarm solar, gofynnodd yr Aelodau a yw unrhyw uchelgeisiau i greu mwy na'r 6MW o drydan wedi'u rhagweld. Nododd swyddogion, yn dilyn trafodaethau gyda chwsmer posibl, fod yr awdurdod yn ceisio ymestyn y project ffarm solar i greu 7.5MW. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r trydan a grëir i wefru ei gerbydau fflyd ei hun. Dywedodd yr Aelodau Cabinet fod yr Awdurdod yn uchelgeisiol a'r fod yn awyddus i weithio gyda phartneriaid gan geisio ddatblygu cyfleoedd ynni glan yn y ddinas.

- Awgrymodd yr Aelodau, wrth gwblhau'r ffarm solar, y gellid dangos targedau ynni glan ar y cerdyn sgoriau rheoli perfformiad yn y dyfodol. Croesawodd swyddogion yr awgrym a dywedon nhw fod disgwyl i'r ffarm solar gael ei gwblhau ar ddiwedd 2019.

- Cododd y Pwyllgor bryderon am lefelau absenoldeb salwch, oedd wedi cynyddu'n sylweddol. Gofynnodd yr Aelodau pa gamau a mesurau lleihau oedd yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn. Dywedodd swyddogion fod gweithdrefnau a Pholisïau Absenoldeb Salwch yn cael eu rhoi ar waith yn llym. Cydnabuwyd bod problemau cynhyrchedd a gweithlu gwaelodol wedi'u nodi. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r rhain yn rhan o'r gwasanaethau strydlun newydd.

- Roedd pryderon gan yr Aelodau y bydd toriadau uchelgeisiol i'r gyllideb ynghyd â lefelau absenoldeb salwch sy'n cynyddu yn cael effaith ar y gwasanaeth. Dywedodd swyddogion y bydd cynllun datblygu'r gweithlu'n edrych ar demograffeg y gweithlu, y gwaith y maen nhw'n ei wneud a'r mathau o salwch maen nhw'n ei gael. Roedd angen deall yn fwy pam mae lefelau salwch staff yn cynyddu fel y gellir gwneud mwy i

gefnogi staff. Roedd cynllun yn cael ei roi ar waith ac roedd swyddogion yn hapus i gyflwyno'r cynllun hwnnw gerbron y Pwyllgor.

- Awgrymodd yr Aelodau fod lefelau absenoldeb salwch yn llawer uwch yn yr Haf nag yn y Gaeaf, ac y byddent yn disgwyl i'r gwrthwyneb.

- Gofynnwyd i swyddogion sylwi ar yr amrywiaeth yn nghyllideb y Gwasanaethau Gwastraff. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Strydlun a chydweithwyr o'r adran gyllid yn gweithio ar roi systemau cyfrifyddu ar sail sero ar waith a pheidio â chaniatáu i amrywiaethau ddrifftio. Mae angen mwy o fonitro a gwybodaeth wybodus.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

16 : RHESTRAU O CYNIGION SEILWAITH LLEOL ADRAN 106 - NODYN BRIFFIO I AELODAU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu Hysbysiad Briffio ar Adran 106 Rhestrau Cynigion Seilwaith Leol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod newidiadau i'r broses A106 wedi'u hachosi gan y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol, deddfwriaeth / canllawiau polisi cynllunio ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol, cynigiwyd bod 'Rhestrau Cynnig Seilwaith Lleol A106' yn cael eu paratoi.

Y bwriad y bydd creu Rhestrau ar sail Wardiau'n rhoi cyfle i Gynghorwyr i nodi cynigion seilwaith lleol (yn ymwneud â Mannau Agored Cyhoeddus, Cyfleusterau Cymunedol a Gwelliannau Priffordd Lleol) mewn modd mwy strategol ac yn rhan o broses wedi'i ffurfioli. Gall swyddogion ystyried y rhestrau hyn wedyn wrth sicrhau rhwymedigaethau A106 yn rhan o geisiadau cynllunio byw a byddant yn ategu'r ystyriaeth o wybodaeth berthnasol eraill megis cynllunio, rhaglenni a strategaethau sy'n bodoli.

Yn rhan o'r gwaith o baratoi'r Rhestrau Cynnig, mae gweithdy wedi'i hwyluso gan swyddogion yn cael ei drefnu gyda Chynghorwyr sy'n gwirfoddoli. Bydd y gweithdy yn rhoi'r cyfle i Gynghorwyr roi cynnig ar gwblhau Rhestrau Cynnig ac i rannu eu barn ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yn hyn. Rhagwelwyd y bydd y project yn cael ei lansio yn yr hydref. Yn rhan o'r lansiad, bydd cyfres o sesiynau gweithdy yn cael ei chynnal i Gynghorwyr i gyflwyno y Rhestrau Cynnig Seilwaith Lleol ac i gynnig arweiniad a hyfforddiant ehangach ar y broses A106.

Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd yn paratoi Cynlluniau Gweithredu Wardiau, sy'n edrych ar faterion mwy dyddiol megis tipio anghyfreithlon / graffiti ac a fydd yn cael eu darparu yn rhan o broses wedi'i chydlynu ar gyfer ymgysylltu â Chynghorwyr a rhyngweithio â nhw.

PENDERFYNWYD – Bod y nodyn briffio'n cael ei nodi.

17 : GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS – RHEOLIADAU CŴN – NODYN BRIFFIO I AELODAU

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod disgwyl i'r Cabinet dderbyn adroddiad ar Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus – Rheoliadau Cŵn ar 5 Gorffennaf 2018. Mae Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar gael i Awdurdodau Lleol ddelio gyda phroblemau niwsans penodol mewn ardaloedd penodol sy'n cael, neu'n debygol o gael, effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai hynny sy'n byw, gweithio neu chwarae yn yr ardal leol. Gall gorchymyn wahardd neu gyfyngu ar weithgareddau penodol ac mae'n cael ei greu i sicrhau bod y rhan fwyaf o bobl sy'n ufuddhau i'r gyfraith yn gallu defnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus sy'n rhydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

PENDERFYNWYD – Bod y nodyn briffio'n cael ei nodi.

## 18 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL – RHAGLEN WAITH 2018/19 DIWEDDARIAD AR LAFAR

Trafododd y Pwyllgor opsiynau ar gyfer Rhaglen Waith 2018/19. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod 2771 o ymatebion wedi'u derbyn i'r arolwg sbwriel/tipio anghyfreithlon. Dywedodd y Prif Swyddog Craffu fod nifer o grwpiau gwirfoddoli wedi ymateb i'r arolwg a gofynnodd am gymeradwyaeth y Pwyllgor i wahodd grwpiau gwirfoddoli i weithdy. Byddai'r gweithdy yn ceisio cael gwybod yr hyn sy'n her i'r grwpiau a sut y gall y Cyngor geisio eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'u heriau.

Cefnogodd y Pwyllgor y cynnig.

## 19 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 4 Medi 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.05 pm